

## **BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

<b>ADRODDIAD I:</b>	<b><u>CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR</u></b>
<b>PWNC:</b>	<b><u>PWYLLGOR GWASANAETHAU</u></b> <b><u>DEMOCRATAIDD - 4 GORFFENNAF 2018</u></b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b><u>SWYDDOG CYMORTH BUSNES</u></b> <b><u>DEMOCRATAIDD A CHORFFORAETHOL</u></b>

---

PRESENNOL: CYNGHORYDD M. CROSS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr J. Millard (Is-gadeirydd)

J. Collins

N. Daniels

M. Day

L. Elias

K. Hayden

W. Hodgins

H. McCarthy

J.C. Morgan

J.P. Morgan

L. Parsons

T. Sharrem

A: Rheolwr Perfformiad Corfforaethol  
Prif Swyddog Cyllid

HEFYD: **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu**  
Cynghorwyr P. Edwards  
S. Thomas  
H. Trollope

<b><u>EITEM</u></b>	<b><u>PWNC</u></b>	<b><u>GWEITHREDU</u></b>
1.	<p><b><u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u></b></p> <p>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>	
2.	<p><b><u>YMDDIHEURIADAU</u></b></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Wilkins, Is-gadeirydd Gwasanaethau Corfforaethol a Throsolwg.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a dywedodd y gwahoddwyd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i fynychu. Er y caniateir iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau, ni fyddent yn cael pleidleisio ar argymhellion.</p> <p>Gofynnodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg a Hamdden sut y cofnodir ei bresenoldeb yn y cyfarfod gan nad oedd yn rhan o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Cadarnhawyd y caiff ei bresenoldeb ei gofnodi fel presenoldeb anffurfiol yn hytrach na ffurfiol gan nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor.</p>	
3.	<p><b><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></b></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
4.	<p><b><u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u></b></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2018, yn cynnwys:-</p> <p><b><u>Ymddiheuriadau</u></b></p> <p>Nodwyd fod y Cynghorydd J. C. Morgan wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau am y cyfarfod oherwydd gwyliau blynyddol.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor ar y newid hwn.</p> <p>CYTUNWYD ymhellach, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion.</p>	
5.	<p><b><u>PROTOCOL GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CRAFFU</u></b></p> <p>Dywedodd y Cadeirydd y cafodd yr eitem yma ei DILEU ac y caiff ei chyflwyno er trafodaeth mewn Pwyllgor yn y dyfodol.</p> <p>Cyfeiriodd Aelod at yr hysbysiad a dderbyniwyd i ddweud y cafodd yr eitem ei dileu a nodi mai'r rheswm am hynny oedd oherwydd trafodaeth bellach gan y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol. Cynigiodd y dylid hefyd gynnwys gwleidyddion uwch yn y drafodaeth yma.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Cyfeiriodd Aelod arall at y Ganolfan Craffu Cyhoeddus sy'n sôn am bwysigrwydd craffu a theimlai fod y grŵp gorchwyl a gorffen yn rhan hanfodol i'r her gan Aelodau a dynodi ffyrdd newydd o weithio. Cynigiodd y dylid sefydlu Gweithgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn edrych ar sut y dylai gwaith craffu fynd rhagddo yn unol â gwybodaeth o'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Dywedodd yr Aelod y dylai grwpiau gorchwyl a gorffen gael eu hystyried un ai gan Gadeiryddion ac Isgadeiryddion Craffu neu drwy Weithgor Gwasanaethau Democrataidd.</p> <p>Cytunodd Rheolwr Perfformiad Corfforaethol godi'r cais gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.</p> <p>Teimlai'r Aelod bod hynny'n bwysig gan y caniateir i Gynghorwyr Pwyllgorau Craffu graffu'n llawn ar faterion i sicrhau eu bod yn cael y buddion mwyaf o'r broses graffu.</p> <p>Cytunodd Aelodau gyda'r sylwadau a wnaed a nododd Aelod arall ei siom y cafodd yr adroddiad ei ddileu. Teimlai fod Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn rhoi cyfle i Aelodau Craffu graffu a herio. Cyfeiriodd Aelod at sylwadau Arweinydd y Cyngor yn ei rôl flaenorol fel Cadeirydd Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn bwysig ein bod yn mynd at y rôl gyda thryloywder llawn ac na ddylai Aelodau ofni herio a chraffu.</p> <p>Cytunodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd, Datblygu Economaidd ac Adfywio gyda'r sylwadau a wnaed a dywedodd ei bod yn bwysig ein bod yn dynodi'r dylanwad sydd gan reolwyr yn nhermau Grwpiau Gorchwyl a Gorffen. Gofynnodd os medrent osgoi Aelodau i ddod â Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i ben. Gofynnwyd ymhellach pryd y byddir yn ailgydio yn y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen o'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd, Datblygu Economaidd ac Adfywio.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Cyfeiriodd Aelod at gyfarfod a drefnwyd ar gyfer holl Aelodau Ward Abertyleri yng nghyswllt deiseb a dderbyniwyd yn erbyn oriau agor maes parcio aml-lawr Abertyleri. Teimlai y dylid cyflwyno'r ddeiseb i Gadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Canol Trefi ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol. Yna cyflwynid yr argymhellion o'r Grŵp hwnnw i Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd, Datblygu Economaidd ac Adfywio i'w ystyried.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor gyda'r llwybr gweithredu yma.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor ymhellach i argymhell, yn amodol ar yr uchod, i gyflwyno'r adroddiad i'r cyfarfod nesaf.</p>	
6.	<p><b><u>STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU</u></b></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr Perfformiad Corfforaethol.</p> <p>Dywedodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol fod y Cyngor wedi cyflawni Siarter Datblygu Aelodau Lefel 1 yn 2011. Mae'r Siarter ar fin dod i ben ac felly roedd yn amser addas i adolygu'r Strategaeth yn ffurfiol. Cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau at yr adroddiad sy'n rhoi manylion ar ddatblygiad y Strategaeth Datblygu Aelodau.</p> <p>Nododd y Swyddog yr ystyriwyd strategaethau gan awdurdodau lleol eraill fel rhan o ddatblygiad y Strategaeth. Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun Corfforaethol y Cyngor a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Tynnodd y Swyddog sylw at adran cyllideb yr adroddiad ac atgoffa Aelodau y cafodd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y dasg o adolygu'r gyllideb Datblygu Aelodau ac ystyried cynnydd posibl er mwyn symud ymlaen â Datblygu Aelodau.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Cyfeiriodd Aelod a ddigwyddiad ymgynghori a gynhelir yn Ward Sirhywi a gynlluniwyd yr un pryd ag y bydd ffordd ar gau. Dywedodd na chafodd Aelodau Ward lleol eu hysbysu a bod hyn yn codi cwestiwn ar integriti Aelodau. Teimlai y dylai gwahanol adrannau'r Cyngor fod yn cydweithio i sicrhau nad oedd hyn yn digwydd ac awgrymodd bod y Tîm Cyfathrebu yn hysbysu Aelodau ac yn rhoi'r wybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol..</p> <p>Cynigiodd yr Aelod bod y Strategaeth yn cynnwys cyfeiriad i ddiogelu integriti Aelodau wrth ddelio gydag aelodau'r cyhoedd.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu yma.</p> <p>Mewn ymateb i gwestiwn am hyfforddiant, cadarnhawyd y caiff mwyafrif yr hyfforddiant ei wneud yn fewnol, fodd bynnag os oes cyllideb addas yn ei lle gellid hwyluso hyfforddiant gyda darparwyr allanol ac awdurdodau cyfagos.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor ymhellach i argymell, yn amodol ar yr uchod, bod Opsiwn 2 yn cael ei argymell, bod Aelodau'n ystyried ac yn awgrymu newid i'r Strategaeth cyn ei gymeradwyo yn y Cyngor i gynnwys cyfeiriad i ddiogelu integriti Aelodau wrth ddelio gydag aelodau'r cyhoedd.</p>	
8.	<p><b><u>RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2018/19</u></b></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.</p> <p>Amlinellodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad sy'n amlinellu Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau ar gyfer 2018/19. Dywedodd fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r rhestr cyhoeddiadau yn flynyddol.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Cyfeiriodd Aelod at y swyddi a ddelir gan gynghorwyr ar Fwrdd Cwm Tawel y rhoddir cydnabyddiaeth ariannol amdanynt a dywedodd na chaiff y taliadau hyn eu cynnwys ar y rhestr a holodd os dylai'r taliadau hyn gael eu nodi.</p> <p>Cadarnhawyd fod y taliadau i Aelodau Bwrdd Cwm Tawel y tu allan i gyfrifoldeb y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac felly nad oeddent wedi eu cynnwys ar y rhestr. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y gellid ychwanegu'r taliadau fel nodyn ar y rhestr er mwyn bod yn agored a thryloyw.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell y llwybr gweithredu yma.</p> <p>Cyfeiriodd Aelod arall at Fwrdd Cwm Tawel a gofyn am eglurhad o'r taliadau i Gynghorwyr a fyddai'n gostau ychwanegol i'r Cyngor a gofynnodd os gellid hawlio hyn yn ôl gan Cwm Tawel.</p> <p>Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid na allai gadarnhau os gallai hyn fod ar gyfer Cynghorwyr. Dywedodd mai dyna fu'n wir ar gyfer y swyddogion oedd yn arfer eistedd yn y Bwrdd a gofynnwyd am eglurhad yn nhermau Aelodau.</p> <p>CYTUNODD y Cyngor ymhellach i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chyhoeddi Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2018/19 gyda'r nodyn wedi'i ychwanegu at yr rhestr.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
8.	<p><b><u>DATGANIAD TALIADAU A WNAED I AELODAU YN 2017/2018</u></b></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.</p> <p>Dyweddodd y Prif Swyddog Cyllid fod hwn yn adroddiad safonol i gytuno ar gyhoeddi'r Rhestr Taliadau a wnaed i Aelodau ar gyfer 2017/18. Nododd y Rhestr Taliadau a wnaed i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig a fanylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.</p> <p>Cyfeiriodd Aelod at y newid i'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yn nhermau taliadau a wneir i gynghorwyr fel Aelodau Bwrdd Cwm Tywel a chynigiodd y dylid hefyd nodi'r taliadau hyn ar y Datganiad Taliadau.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell y llwybr gweithredu yma.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor ymhellach i argymhell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chyhoeddi Datganiad Taliadau a wnaed i Aelodau yn ystod 2017/18 gan gydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol gyda'r nodyn a ychwanegwyd i'r atodlen.</p>	
	<p><b><u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u></b></p> <p>Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr amseriad ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol a gofynnodd i'r Pwyllgor beth fyddai orau ganddynt.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau, CYTUNODD y Pwyllgor y dylid cyfarfodydd y dyfodol am 9.30 am</p>	